Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Maenclochog
# Neuadd Gymunedol Maenclochog
# Maenclochog
# Sir Benfro

**Dyddiad yr arolygiad: 28-29 Chwefror 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**
**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Maenclochog yn neuadd gymunedol y pentref. Sefydlwyd y Cylch yn 1972 ac mae'r plant sy'n mynychu yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy a thair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Mae ar agor rhwng 9:00 a 11:30 y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd pum plentyn tair oed ar y gofrestr. Daw y rhan fwyaf o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae dau aelod o staff ac maent yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Maent wedi bod yn eu swyddi presennol am gyfnod byr o amser.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn yn Ebrill 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn ddigonol.

Mae'r cryfderau yn cynnwys:
- yr ystod o weithgareddau diddorol a gynigir;
- y gofal da a ddarperir mewn amgylchedd dysgu cynhwysol;
- y berthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr.

Er hyn:
- nid yw gweithdrefnau cynllunio'r cwricwlwm wedi'u gwreiddio'n llwyr;
- mae agweddau ar yr addysgu a'r dysgu yn parhau i ddatblygu;
- mae gweithdrefnau newydd ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd plant yn cael eu cyflwyno.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella digonol.

Mae'r cryfderau yn cynnwys:
- mae'r ymarferwyr yn weithgar a chydwybodol;
- ceir gwaith tîm effeithiol;
- mae trefn esmwyth i rediad dyddiol y lleoliad;
- mae'r rhieni a'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn.

Er hyn:
- mae dulliau arwain a rheoli yn dal i ddatblygu;
- mae'r gweithdrefnau arfarnu yn anffurfiol eu natur;
- mae gweithrediad y cynllun datblygu yn ei ddyddiau cynnar.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 ddatblygu cynllunio'r cwricwlwm i hyrwyddo medrau'r plant yn gyson ar draws y meysydd dysgu;

A2 cryfhau'r addysgu drwy ffocysu ar nod y gweithgareddau a sicrhau bod y tasgau yn ymestyn dysgu'r plant mwy galluog;

A3 cyflwyno geirfa a phatrymau brawddegau Cymraeg yn gyson er mwyn datblygu medrau cyfathrebu'r plant; a

A4 datblygu gwybodaeth yr ymarferwyr o ddulliau arfarnu a chynllunio i'r dyfodol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Seilir y gweithgareddau ar themâu sy'n addas i ystod oed y plant. Mae'r broses o gynllunio mwy ffurfiol gan ddefnyddio fframweithiau cwricwlaidd yn ei gyfnod cynnar. Darperir cyfleoedd priodol i'r plant ddefnyddio eu medrau cyfathrebu, rhif ac i raddau llai eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn gweithgareddau gwahanol. At ei gilydd, nid yw'r cynllunio na'r drefniadaeth yn sicrhau parhad a dilyniant cyson yn y dysgu, gan gynnwys datblygiad y medrau, ar draws y cwricwlwm.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Er hyn, nid oes ffocws digonol yn y cynllunio ar gyflwyno geirfa a phatrymau brawddeg yn gyson er mwyn datblygu medrau llafar y plant. Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

Mae profiadau addas, megis tyfu a gofalu am blanhigion a gweithdrefnau ailgylchu, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw. Caiff y plant rhai cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd ehangach, gan gynnwys pobl a diwylliannau eraill. Maent yn dathlu'r flwyddyn newydd Tseiniaidd drwy ymwneud ag ystod o weithgareddau celf.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o ddatblygiad plant ac o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Gwnânt ddefnydd addas o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i gynorthwyo'r dysgu. Ymunant yn effeithiol yn y gweithgareddau gan gynnig cymorth cyson i'r plant. Er hyn, nid oes sylw digonol bob amser i nod y gweithgareddau i sicrhau dysgu cyson. Caiff y gweithgareddau eu paratoi yn fanwl ond nid yw'r tasgau yn ymestyn y plant mwy galluog yn rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau ac yn cwblhau dyddiadur priodol. Yn ddiweddar, cyflwynwyd gweithdrefnau newydd i olrhain a chofnodi cynnydd y plant yn fwy manwl. Maent yn cynnwys cadw samplau o waith plant a chwblhau cofnod o ddatblygiad eu sgiliau. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth priodol i'r ysgol gynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant. Gosodir disgwyliadau clir sy'n hyrwyddo ymddygiad da iawn.

Sefydlwyd trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen, ac mae llinellau cyfathrebu priodol gydag asiantaethau allweddol. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Hyrwyddir gwerthoedd, megis tegwch, caredigrwydd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir, yn gyson drwy'r gweithgareddau dyddiol. Mae profiadau megis ymweld â'r eglwys a chymryd rhan mewn bedydd o dan arweiniad y ficer, a gwaith ar stori'r Nadolig yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol y plant yn effeithiol. Yn ogystal, mae cymryd rhan mewn cyngerdd ar gyfer y rhieni yn cyfrannu at eu datblygiad cymdeithasol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon. Llwyddir i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar i'r holl blant.

Mae gan y lleoliad nifer briodol o ymarferwyr. Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cynnig cyfleusterau addas ar y cyfan. Er hyn, nid oes lle chwarae y tu allan ond gwneir defnydd llawn o'r neuadd. Arddangosir samplau o waith y plant ar fyrddau

priodol. Ceir ystod o adnoddau o ansawdd da iawn sy'n cael eu defnyddio'n addas i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'u gwahanol gyfrifoldebau ac maent yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r prif ymarferydd yn datblygu arferion dyddiol cadarn ac fe weithiant yn esmwyth. Mae'r defnydd o brosesau cynllunio a rheoli'r holl ddarpariaeth yng nghyfnod cynnar ei ddatblygiad. Mae polisïau addas yn weithredol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac wedi sefydlu perthynas dda gyda'r ymarferwyr a rhieni. Mae gan yr aelodau ddiddordeb cryf yn yr hyn sy'n digwydd yn y lleoliad ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r pwyllgor ac mae'r person cofrestredig yn ymwelydd cyson. Mae ganddi wybodaeth dda o'r ddarpariaeth gyfredol yn y lleoliad ac o'r anghenion pellach. Mae gweithdrefnau priodol mewn lle i arfarnu gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a hybu medrau iaith Cymraeg y plant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Maent yn cyd-drafod yn rheolaidd ond mae'r gweithdrefnau i arfarnu agweddau ar y ddarpariaeth yn dal i ddatblygu ac yn anffurfiol eu natur.

Trafodir agweddau ar y ddarpariaeth ymhellach gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin. Cytunir ar agweddau i'w datblygu a chyflwynir strategaethau priodol. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a'r cynllun gwella a baratowyd cyn yr arolygiad yn fan cychwyn pwysig. Nid yw'r lleoliad wedi ymateb yn llawn i argymhellion adroddiad yr arolygiad diwethaf.

Mae'r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant yn ystod eu gyrfa ar ddatblygiad a gofal plant. Mae'r prif ymarferydd wedi mynychu cyrsiau addas ar y Cyfnod Sylfaen ac wedi cael rhai cyfleoedd i drafod a rhannu syniadau gyda lleoliadau eraill yn ystod dyddiau hyfforddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Maent yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu os bydd angen cymorth ychwanegol. Mae

perthynas dda hefyd rhwng y lleoliad a'r rhieni. Cadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau yn ystod yr arolygiad. Mae'r ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod gyda'r rhieni ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Darperir gwybodaeth berthnasol i rieni am y lleoliad a'r ddarpariaeth.

Mae'r bartneriaeth agos gyda'r person cofrestredig, y pwyllgor rheoli, yr athrawes gyswllt a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau agos gyda'r gymuned sy'n cefnogi dysgu'r plant. Gwneir defnydd llwyddiannus o'r cysylltiadau gydag asiantaethau a mudiadau lleol i gefnogi'r ymgyrchon i godi arian.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a sicrheir cyfleoedd hyfforddiant rheolaidd. Mae cyflenwad da iawn o adnoddau. Cant eu defnyddio'n addas i gefnogi'r dysgu.

Mae gan y person cofrestredig a'r pwyllgor ddealltwriaeth dda o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu eu gwariant yn ôl anghenion. Caiff penderfyniadau ariannol eu trafod gan y pwyllgor a'u rheoli'n effeithiol gan y trysorydd. Gwneir defnydd rheolaidd o ymgyrchon codi arian i ychwanegu at y cyflenwad o adnoddau. Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Maent yn barod i sgwrsio'n syml am eu hoff weithgareddau ac yn nodi eu bod yn hoffi chwarae gyda'u ffrindiau.

# Atodiad 2

## Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod PlantGenedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |